OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 297

# Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Amrywio Cydsyniadau) (Cymru) 2019

**Asesu addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

**4.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael cais amrywio, rhaid iddynt—

(a) ystyried a yw'n addas ar gyfer ei gyhoeddi yn unol â rheoliad 5 ai peidio; a

(b) rhoi hysbysiad i'r ceisydd o dan baragraff (2) neu (6) o fewn tair wythnos o'i gael.

(2) Os na fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cais yn addas i'w gyhoeddi, rhaid iddynt roi hysbysiad i'r ceisydd—

(a) am eu penderfyniad a'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw; a

(b) y caiff wneud sylwadau i Weinidogion Cymru gyda golwg ar ddarbwyllo Gweinidogion Cymru bod y cais yn addas i'w gyhoeddi.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan baragraff (2), rhaid iddynt—

(a) pennu yn ysgrifenedig ddyddiad erbyn pryd y mae unrhyw sylwadau o dan baragraff (2)(b) i'w gwneud; a

(b) os bydd y ceisydd yn methu â gwneud sylwadau erbyn y dyddiad a bennir felly, rhoi hysbysiad gwrthod i'r ceisydd.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo'r ceisydd yn gwneud sylwadau i Weinidogion Cymru yn ychwanegol at hysbysiad a roddir iddo o dan baragraff (2)(b).

(5) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried sylwadau'r ceisydd—

(a) yn parhau i ystyried nad yw'r cais yn addas i'w gyhoeddi, rhaid iddynt roi hysbysiad pellach o dan baragraff (2) neu hysbysiad gwrthod; neu

(b) yn ystyried bod y cais yn addas i'w gyhoeddi, rhaid iddynt roi hysbysiad o dan baragraff (6).

(6) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cais yn addas i'w gyhoeddi, rhaid iddynt roi hysbysiad i'r ceisydd am eu penderfyniad.

(7) Pan fo—

(a) paragraff (6) yn gymwys; a

(b) cyrff y cyfeirir atynt yn y diffiniad o "awdurdod cynllunio perthnasol" yn rheoliad 2—

(i) y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn debygol o fod â buddiant yn y cais; a

(ii) nad ydynt wedi eu nodi gan y ceisydd o dan reoliad 3(1)(e),

rhaid i Weinidogion Cymru nodi'r cyrff hynny yn yr hysbysiad a roddir o dan baragraff (6).

(8) At ddibenion y rheoliad hwn, mae cais amrywio yn addas i'w gyhoeddi yn unol â rheoliad 5—

(a) mewn achos pan fo'n ofynnol llunio adroddiad AEA mewn cysylltiad â'r cais amrywio o dan y Rheoliadau AEA (am fod y cais ar gyfer datblygiad AEA o fewn ystyr y Rheoliadau hynny), os oes adroddiad AEA wedi ei ddarparu i [Weinidogion Cymru]; a

(b) os ymddengys i Weinidogion Cymru—

(i) bod y ceisydd yn dymuno adeiladu, gweithredu neu estyn gorsaf gynhyrchu mewn modd nad yw'r cydsyniad adran 36 perthnasol yn ei awdurdodi;

(ii) nad yw'r datblygiad arfaethedig yn wahanol i'r orsaf gynhyrchu y mae'r cydsyniad adran 36 perthnasol yn cyfeirio ato i'r graddau (o ran ei adeiladu, ei estyn, ei weithredu neu ei effaith amgylcheddol debygol) y mae awdurdodiad yn ofynnol ar ei gyfer gan—

(aa) gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu o fewn ystyr adran 31 o Ddeddf Cynllunio 2008(**1**) (pa bryd y mae cydsyniad datblygu yn ofynnol); neu

(bb) cydsyniad adran 36 newydd (yn hytrach nag amrywiad i'r cydsyniad adran 36 perthnasol); a

(iii) bod digon o wybodaeth yn y cais i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniad am y cais.

(9) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "adroddiad AEA" yr ystyr a roddir i "EIA report" yn y Rheoliadau AEA;

(b) ystyr "hysbysiad gwrthod" yw hysbysiad bod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu o dan adran 36C(4) o'r Ddeddf na fyddai'n briodol gwneud unrhyw amrywiad i'r cydsyniad adran 36 perthnasol.

(**1**) 2008 p. 29> .